**Cyfarfod Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau**
**Dydd Mercher 29 Hydref 3pm-5pm Canolfan y Celfyddydau**
**Memo, Heol Gladstone, Y Barri**

**Yn bresennol:** David Stevens (DS); Fay Blakeley (FB); Y Cynghorydd Lis Burnett (LB); Shirley Hodges (SH); Matt Blumberg (MBg); Sarah Cutting (SC); Marc Attwell (MA)

**Ymddiheuriadau:** Jane Hutt, Kanishka Narayan, Cyng Bronwen Brooks, Innes Robinson
**Yn bresennol**: Natalie Nolan (NN); Marcus Goldsworthy (MG); Phil Chappell (PC); Mererid Velios (MV); Matt Bowmer (MB); Lauren Collins (LC); Joe Castle (JC)

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd y rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Nodiadau o'r Cyfarfod Blaenorol**
Ni ofynnwyd am unrhyw ddiwygiadau.

**3**. **Enw'r bwrdd**
Ers i'r rhaglen Cynllun Cymdogaethau gael ei hail-frandio fel Balchder Bro (Pride in Place) gan Lywodraeth y DU, gofynnodd DS a oedd angen newid enw'r Bwrdd. Cytunwyd, ers i gymaint o waith fynd i gyfathrebu a rhoi cyhoeddusrwydd i 'Gynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau' dros yr haf/hydref y byddai'r Bwrdd yn cadw at y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau am y tro ac yn symud i ollwng 'Cynllun ar gyfer', gan ddod yn 'Fwrdd Cymdogaethau'r Barri'.

**3. Staff Newydd**

- Cyflwynwyd Sarah Cutting fel Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau ac roedd wedi dechrau yn y rôl yr wythnos honno.
- Cyflwynwyd Lauren Collins fel Swyddog Cyllid a Monitro Cynllun Cymdogaethau y Barri, a oedd wedi dechrau yn y rôl ar 6 Hydref.
- Dywedodd MV hefyd fod Alex Francis wedi'i phenodi'n Swyddog Adfywio ac y byddai'n mynychu'r digwyddiad Croeso, ond yn cychwyn yn swyddogol yn ei rôl newydd ar 10 Tachwedd.

**4. Diweddariad gan Grwpiau Gweithredu**
Rhoddodd MV ddiweddariad ar gyfer cyfarfodydd cyntaf y Grwpiau Gweithredu. Trafododd Barry Gyda'i Gilydd archwilio mannau cyhoeddus a chyfleusterau i asesu'r seilwaith presennol. Dechreuodd Cymunedau Ffyniannus y Barri drafod syniadau hefyd ond nifer siomedig a fynychodd. Cafodd Y Barri Bywiog, Diogelu'r Barri a Dyfodol y Barri gyfarfod cyntaf addawol. Cafwyd trafodaethau mewn rhai grwpiau ynghylch annibyniaeth oddi wrth y Cyngor a sut y byddai prosiectau cydweithredol yn gweithio.

**5. Amserlen y digwyddiad croeso**
Rhedodd DS drwy'r amserlen ar gyfer y digwyddiad Croeso a dirprwyodd dasgau i aelodau eraill y Bwrdd.

**6. Matricsau a blaenoriaethu**

- Roedd y matrics drafft yn canolbwyntio ar yr ymyriadau rhestredig. Esboniodd NN y bydd tîm Llywodraeth y DU yn helpu i greu achos busnes ar gyfer prosiectau oddi ar y ddewislen os oes tystiolaeth o angen. Trafodwyd y gwahanol feini prawf. Ystyriwyd bod prosiectau hirdymor, cynaliadwy sy'n gadael etifeddiaeth yn bwysig iawn. Y gallu i ddenu arian cyfatebol hefyd yn allweddol.
  **Gweithredu**: MV a SC i fireinio'r matrics ymhellach

- Awgrymodd DS y dylai pob grŵp gweithredu flaenoriaethu'r prosiectau y maent am eu cyflwyno i'r Bwrdd a chreu portffolio o brosiectau. Dywedodd LB y byddai'r Bwrdd yn ystyried pa brosiectau sy'n fwy tebygol o gyflawni'r weledigaeth a rennir. Dywedodd NN fod angen gweledigaeth glir bod pob grŵp gweithredu yn deall bod yn rhaid iddynt weithio tuag ati. Nododd MV fod y pum amcan y cytunodd y Bwrdd arnynt, a ystyriwyd wrth benderfynu ar thema pob grŵp gweithredu.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch prosiectau sy'n creu refeniw a allai fwydo yn ôl i'r prosiect. A allai'r Bwrdd barhau ar ôl 10 mlynedd? Trafodwyd ffurfio CBC neu SCE a dywedodd NN y byddai trosglwyddo asedau cymunedol yn ffitio o dan y thema 'Cymryd rheolaeth yn ôl'.
  **Cam gweithredu:** MV a DS i ymchwilio i opsiynau ar gyfer ffurfio'r Bwrdd

**7. Strwythur llywodraethu'r Cyngor ar gyfer Creu Lleoedd**

- Esboniodd PC sut mae Llywodraeth Cymru wedi annog pob tref i ddatblygu Cynllun Creu Lleoedd gan ddilyn egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer y Barri bron wedi'i gwblhau. Mae Bwrdd Bro trosfwaol wedi'i sefydlu a byrddau tref ar wahân (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Cynghorau Tref) sydd â chyfrifoldeb am gyflawni eu Cynllun Tref. Bydd angen cyllid o wahanol ffynonellau er mwyn cyflawni'r Cynllun. Mae Cyllid Rhannu Ffyniant (SPF) yn dod i ben eleni ac mae ei ddisodli yn dal i gael ei drafod. Mae Cronfa Balchder Bro (PiP Impact) newydd y mae'n rhaid ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn nesaf ac mae rhestr flaenoriaethu yn cael ei pharatoi gan y Cyngor.
- Bydd angen i MV a SC ddarparu gwybodaeth i'r grwpiau gweithredu ar ba brosiectau y mae'r Cyngor yn eu datblygu gyda'r cyllid Balchder Bro. Mae angen mecanwaith i rannu gyda'r Bwrdd a grwpiau gweithredu (drwy'r tîm staff Cynlluna r gyfer Cymdogaethau) pa fentrau newydd sy'n digwydd mewn adrannau eraill e.e. Addysg. Mynegwyd pryder ynghylch Cyllid Rhannu Ffyniant (SPF) yn dod i ben yn gadael rhai sefydliadau yn gorfod gadael staff i fynd, dim ond i'w hail-logi yn nes ymlaen pan fydd cynllun ariannu newydd yn dechrau. Mae hyn yn gwastraffu adnoddau.

**8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

21 ain Tachwedd — nid agenda lawn, cyfarfod yn canolbwyntio ar y cynllun Adfywio.